# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR
a gynhaliwyd ar y 1af o Rhagfyr 2015
am 8.00y.h.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr:- Ann Tudor (Cadeirydd), Ada Evans, Meirion Davies, , Dylan Edwards, Caredig Jones, Rowland Jones Meic Francis, John Davies a Dewi Rattray.**

**YMDDIHEURIADAU: Cyng. Richard Davies.**

**ABSENOLDEBAU:** Nid oedd unrhyw Absenoldebau.

Dachraeodd y cyfarfod am 8.00 o'r gloch. Chroesawyd yr aelodau i gyfarfod 1af 2016 a dymunwyd Blwyddyn Newydd Dda i bawb gan y Cadeirydd Ann Tudor.

**15/887**
Darllenwyd cofnodion cyfarfod Miss Rhagfyr gan y Clerc a phasiwyd eu bod yn gywir. Cynigiwyd gan y Cyng. Rowland Jones ac fe eiliwyd gan y Cyng. Ada Evans

**15/888 - MATERION YN CODI**

1. Phaswyd i'r clerc i gysylltu â Tom Edwards, er mwyn ofyn iddo dynnu'r goleuadau oddi ar y goeden yn y sgwâr. Hefyd i wneud ymholiadau ynglŷn â chadw'r goleuadau nes Rhadfyr nesaf.
2. Darllenwyd ateb oddiwrth Mr Neil Moffatt Tai Ceredigion ynglŷn â goleuadau Gwarfelin. Nodir i godi'r pwnc yn ystod cyfarfod Miss Chwefror.
3. Llythyr oddiwrth Cyngor Datblygu Llanilar yn cadarnhau'r sefyllfa ynglŷn ag agor toiledau'r ystafelloedd newid fel toiledau cyhoeddus.
4. Derbyniwyd dyddiad ar gyfer Hyfforddiant Difib ar y 16 Chwefror 2016. Fe wnaeth y clerc cadarnhau for yr ystafell yn yr Hen Ysgol ar gael ond ddim nes 7.30pm. Ofynnwyd I'r Cyngor os fydd well ganddynt gohirio y noson nes Fis Ebrill ond penderfynwyd gweld faint o ddiddordeb sydd am Fis Chwefror.
5. Trafodwyd y posibilrwydd o roi 'CCTV' tu fas i'r Ganolfan Hen Ysgol. Awgrymmwyd y Cyng. Caredig Jones falle fydd yn syniad i gael Richard Williams allan i gynghori ar y wahanol fathau o 'CCTV' sydd ar gael a.y.b. Phasiwyd i'r Cyng. Dylan Edwards /Caredig Jones i gysylltu â Richard i drafod ym mhellach.

**15/889 - LLYTHYRON**

1. Ymateb wrth y Cyngor ynglŷn â'r dŵr sy'n crynhoi wrth Gwel-Y-Mor. Maent wedi cadarnhau fod wedi clirio'r geuffos ac nid yw'r dŵr yn crynhoi yna'n bellach.
2. Ymateb ynglŷn â cheir yn parcio wrth fynedfa'r llwybr Beicio ar ffordd Trawscoed. Dwedwyd fod arwydd newydd wedi eu harchebu i roi yn y lleoliad yma cyn hir.
3. Manylion oddiwrth Bwrdd Iechyd Hywel Dda a manylion gwasanaeth iechyd meddwl.
4. Llythyr o ddiolch oddiwrth Pwyllgor Mileniwm Llanilar, am y £350 rhodd tuag at yswiriant noson dan wyllt y pentref.

5. Cynnwys nifer o negeseuon e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Un Llais Cymru, megis…. Lansio Ymgynghoriad ar Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd, Invitation for nominations for 2017 New Year Honours, Cyhoeddi Cynllun Gweithredu Cynllunio Cadarnhaol, National Resources Bulletin, Gwybodaeth ar beth i'w wneud os yw eich tŷ yn cael ei gorlifo a.y.b.

**15/890 – ARIANNOL**

1. Cyflog y Clerc ar gyfer Miss Ionawr; £113.27. Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng.Dylan Edwards ac eiliwyd gan y Cyng John Davies.
2. Anfoned oddiwrth Mr John Burns-Davies ar gyfer gwagio biniau'r Hen Ysgol. Cyfanswn £126.00. Cynigwydd i'w dalu gan y Cyng. Dewi Rattray ac fe eiliwyd gan y Cyng. Caredig Jones.
3. £84.40 ar gyfer PAYE Miss Tachwedd, Rhagfyr a Ionawr. Cynigwyd I'w talu gan y Cyng.Dewi Rattray ac fe eiliwyd gan y Cyng.Meirion Davies.

**15/891 – CYNLLUNIO**

Cais A151010 – Demolition of existing bungalow and an erection of a replacement dwelling house (Plot 1) and an erection of a dwelling for tourism use (Plot 2).

Nid oedd gan y Cynhorwyr unrhyw wrthwynebiad i'r cais, ond ofynnwyd i dynnu sylw'r adran gynllunio at gais blaenorol a wnaeth y Cyngor Sir wrthod oherwydd consýrn a gwasanaethau dwr a.y.b. Fe wnaeth y Cynhorydd Rowland Jones datgan diddordeb.

**15/892 - UNRHYW FATER ARALL**

1. Waneth y Cyng. Caredig Jones dwyn sylw'r cyngor at gyflwr peryglus y coed yn Abermad. Phaswyd i'r clerc ysgrifennu at y Cyngor Sir i godi'r pwnc yma.
2. Dwedwyd y Cyng Dylan Edwards for yna coeden wedi cwympo flwyddyn ddiwethaf y ffordd Trawscoed rhwng Llwyndderw a Simne-Wen. Mae'r boncyf' sydd ar ôl wedi pydru'n llwyr ac mae angen iddo gael eu codi cyn iddo syrthio ar gerbyd/person. Phasiwyd i'r clerc ysgrifennu at y Cyngor ynglŷn â hyn.
3. Fe wnaeth y Cyng. Meirion Davies rhoi gwybod bod stad cyflwr y rhewl o Ffospompren Llanilar tuag ar Bryncwith Llangwyryfon yn ofnadwy. Llawn tyllau difrifol. Phasiwyd i'r clerc cysylltu â'r adran priffyrdd ynglŷn â hyn.
4. Awgrymwyd y Cyng.Ann Tudor efallai fydd yn syniad ofyn i Alex Glanville os oedd unrhyw bosibilrwydd o gael grant tuag at drwsio wal yr Eglwys. Phasiwyd i'r clerc hanfon e-bost ato i dafod hyn (a chopïo'r Vicer, Stephen Edwards yn yr e-bost)
5. Fe wnaeth aelod o'r gymuned ofyn a oedd yn bosib rhoi arwydd 'dim cwn' ar gat y cwrt tennis. Fe gytunodd y cyngor cymuned for hyn yn syniad da, a hefyd nodi fod anger i'r cyhoedd rhoi sylw at bolisi 'Dim Cwn' trwy'r fynwent.

Gorffennwyd y cyfarfod am 9.00yh